

## Atodiad 4

### Rhestr Termau Trawsrywiol

Mae'r iaith sy'n cael ei defnyddio ar gyfer materion trawsryweddol yn newid drwy'r amser, ac mae'n adlewyrchu sefyllfa a safbwyntiau newidiol pobl drawsrywiol yn y gymdeithas. Mae defnydd iaith yn gallu bod yn unigolyddol iawn. Mae'n bwysig cofio'r newidiadau hynny oherwydd mi allai rhai pobl drawsrywiol ddefnyddio termau y mae eraill yn eu hystyried yn amhriodol.

Mae'r eirfa hon yn cynnwys termau a ddefnyddir yn aml yn ein polisi a'n canllawiau. Oni nodir yn wahanol, daw'r termau o Restr Termau Stonewall.

**Cisryweddol neu Cis** - rhywun y mae ei hunaniaeth rhywedd yr un fath â phan gafodd ei eni. Mae rhai pobl hefyd yn defnyddio'r term 'anhras'.

**Dod allan** - pan fydd rhywun yn dweud wrth rywun/wrth eraill am y tro cyntaf am eu hunaniaeth lesbiaidd, hoyw, bi neu drawsrywiol.

**Rhywedd** - Mae rhywedd yn cyfeirio at y gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol sydd rhwng dynion a merched. Mae'n cynnwys tair o agweddau cysylltiedig: y rolau, y normau a'r ymddygiadau rhyw sydd wedi eu creu gan gymdeithas sy'n seiliedig yn y bôn ar y rhyw a bennir adeg ein geni; hunaniaeth rhyw, sef canfyddiad mewnol rhywun o'u hunaniaeth; mynegiant rhyw, sef y ffordd y mae rhywun yn byw mewn cymdeithas ac yn ymwneud ag eraill. Nid yw rhywedd o reidrwydd yn ddewis deuaidd syml: mae gan rai pobl hunaniaeth rhywedd nad oes iddi ddiffiniad syml trwy ddefnyddio'r termau merch neu ddyn.

**Mynegiant/cyflwyniad rhywedd** - sut mae rhywun yn dewis mynegi eu rhyw yn allanol, yng nghyd-destun y disgwyliadau cymdeithasol sydd o ran rhywedd. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd rhywun nad yw'n cydymffurfio â disgwyliadau cymdeithasol o rywedd yn ei ystyried ei hun yn drawsrywiol.

**Hunaniaeth rhywedd** - ymdeimlad cynhenid rhywun o'u rhyw eu hunain, boed yn wryw, yn fenyw neu'n rywbeth arall (gweler anneauidd isod), a all gyfateb â'r rhyw a bennwyd adeg eu geni neu beidio.

**Anghydfurfiaeth rhywedd** - gweler 'amrywiant rhyw'

**Ailbennu rhywedd** - ffordd arall o ddisgrifio trawsnewid. Fel rheol mae ailbennu rhywedd yn golygu rhyw fath o driniaeth feddygol, ond gall hefyd olygu newid enwau, rhagenwau personol, gwisgo'n wahanol a byw mewn rhywedd o'ch dewis. Mae ailbennu rhywedd yn nodwedd sy'n cael ei gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac fe'i dehonglir hefyd yng nghod ymarfer cymeradwy Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae cryn ddadlau ynghylch y term ac mae Grŵp Cyngori Trawsrywedd Stonewall o'r farn bod angen ei adolygu.

**Amrywiant rhywedd** - Amrywiant rhywedd, neu anghydfurfiaeth rhyw, yw ymddygiad neu fynegiant o rywedd nad yw'n cyd-fynd â'r normau rhyw sydd wedi eu creu gan gymdeithas ar gyfer dynion a menywod. e.e. rhywun sy'n nodi mai dyn ydyw ond sy'n gwisgo fel merch.

**Rhyngrywiol** - term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer pobl a anwyd gydag amrywiad o nodweddion rhyw, nad ydynt bob amser yn cyd-daro â chanfyddiad y gymdeithas o gyrff gwrywaidd neu fenywaidd. Nid yw rhyngrywiol yr un fath â hunaniaeth rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mi all pobl rhyng-rywiol eu nodi eu hunain yn wrywaidd, yn fenywaidd neu'n anneauidd.

**Anneuaidd** - term ymbarél ar gyfer rhywun sydd â hunaniaeth rhyw sydd rhwng y ddau categori 'gwryw' a 'benyw', neu y tu hwnt i hynny, yn amrywio rhwng 'gwryw' a 'benyw', neu sydd heb rywedd, naill ai'n barhaol neu rywfaint o'r amser. Caiff pobl anneuaidd eu diogelu o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ymwneud â gwahaniaethu trwy canfyddiad.

**Pasio** - Eraill yn eich gweld chi fel hunaniaeth/rhywedd neilltuol neu gisryweddol, waeth beth yw hunaniaeth yr unigolyn dan sylw, e.e. pasio fel strêr, pasio fel menyw cis, pasio fel rhywun ifanc. Mae'r term hwn yn ddadleuol oherwydd bod 'pasio' yn awgrymu nad yw rhywun fel y mae'n ymarweddu mewn gwirionedd.

**Rhagenw personol** - geiriau a ddefnyddiwn i gyfeirio at rywedd pobl mewn sgwrs - er enghraifft, 'fo' neu 'hi'. Efallai y byddai'n well gan rai pobl i bobl eraill gyfeirio atynt mewn iaith sy'n niwtral o ran rhywedd a defnyddio'r rhagenwau nhw / eu.

**Rhyw** - rhoddir i rywun ar sail y nodweddion rhyw sylfaenol (genitalia) a swyddogaethau atgenhedlu.

**Trawsrywiol** - term ymbarél i ddisgrifio pobl nad yw eu rhywedd yr un fath neu nad yw'n eistedd yn gyfforddus â'r rhywedd a neilltuwyd iddynt adeg eu geni. Gall pobl drawsrywiol eu disgrifio eu hunain gan ddefnyddio un neu ragor o o dermau amrywiol iawn, gan gynnwys (ymhlith eraill) trawsryweddol, anneuaidd a hoywryweddol. Mae'r term dyn drawsrywiol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio rhywun a bennwyd yn fenyw ar ei enedigaeth ond sy'n ei ystyried ei hun yn ddyn. Caiff y term ei gwtogi i ddyn traws. Mae'r term merch drawsrywiol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio rhywun a bennwyd yn wryw ar ei enedigaeth ond sy'n ei hystyried ei hun yn ferch. Caiff y term ei gwtogi i ferch draws.

**Trawsnewid** - Mae trawsnewid yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio'r broses a'r camau y mae unigolyn yn eu cymryd er mwyn byw yn y rhywedd o'u dewis. Mae trawsnewid yn broses unigryw i bob unigolyn a gall gynnwys unrhyw newidiadau ym mywyd y person. Gall fod yn gymdeithasol a/neu'n feddygol, a gall gymryd blynyddoedd.

**Transffobia** - term a ddefnyddir i ddisgrifio ofn, dicter, anoddefgarwch, anfodlonrwydd ac anghysur rhai pobl oherwydd bod rhywun yn drawsrywiol. Gall arwain at wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth a throseddau casineb.